

Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi gweld mwy o newid gweithrediadol nag a welodd y cyrff a'n rhagflaenodd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gyda chymaint yn digwydd mewn amser mor fyr, mae'n ddealladwy fod rhywfaint o ddryswch wedi bod. Nid oedd llawer o hyn o fewn ein rheolaeth uniongyrchol, ond rydym yn hynod o ymwybodol o'r effaith arnoch chi, ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth sy'n bosibl i'ch helpu chi i ymdrin â'r materion a godwyd gan y newidiadau hyn. Rydym wedi gwerthfawrogi eich adborth - cadarnhaol a heb fod mor gadarnhaol - ac anelwn at barhau i ymateb yn uniongyrchol a thrwy gyfryngau fel y rhifyn arbennig hwn o DBS News.

Mae ein timau wedi bod yn gwrando ar eich anawsterau, ac felly gobeithiwn y bydd y rhifyn hwn yn arbennig o ddefnyddiol i chi. Bwriadwn iddo ymdrin â'r prif broblemau yr ydych wedi bod yn eu hwynebu, yn arbennig gyda'n ffurflen gais record droseddol.

Er gwaethaf yr heriau, mae tua 2,000 o bobl eisoes wedi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddar. Credwn fod hyn yn gadarnhaol, gan mai ei brif ddiben yw ei gwneud yn haws ac yn rhatach i unigolion a chyflogwyr gadw gwybodaeth gyfoes sy'n cefnogi penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Ar ôl ychydig o fisoedd mor brysur, rydym yn gwerthfawrogi y gallai gymryd ychydig mwy o amser i setlo i lawr - a byddwn yn parhau i weithio gyda chi nes bydd hynny'n digwydd. Nid oes unrhyw newidiadau pellach yn cael eu cynllunio ar gyfer y cyfnod hwn.

Byddwn yn parhau i ymateb i'ch adborth, ac yn ei drefnu ar gyfer ein Bwrdd a'r adran noddi, felly cofiwch ddweud wrthym os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i helpu i wneud y ffordd o'ch blaen rywfaint yn haws.

Diolch yn fawr i chi am eich holl gefnogaeth.

Adrienne Kelbie
Prif Weithredwr

Ffurflen gais: helpu i gael pethau'n iawn

Rydym wedi derbyn llawer o ymholiadau am sut i gwblhau adrannau penodol o'r ffurflen gais. Rydym yn gwybod bod hyn wedi bod yn ddryswch i chi, felly derbyniwch ein hymddiheuriadau os gwelwch yn dda am unrhyw bryderon diangen y gallem fod wedi eu hachosi.

Yn yr erthygl hon, byddwn yn egluro'n union yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud gyda'r adrannau ar y ffurflen sy'n achosi problemau arbennig. Darllenwch ymlaen am ganllawiau defnyddwyr i adrannau e55, x61 ac x66. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am lenwi'r ffurflen gais ar ôl darllen yr adran hon, cysylltwch â ni drwy'r dulliau arferol a gallwn eich anfon i'r cyfeiriad cywir.

Adran e55

Ar 29 Mai 2013, arweiniodd newidiadau mewn deddfwriaeth i ni gael gwared ar rai hen droseddau a mân droseddau penodol o dystysgrifau DBS.

Fe wnaethom eich cyngori i roi gwybod i'ch ymgeiswyr wrth gwblhau e55 y ffurflen gais, y dylent drin y cwestiwn fel: *'A oes gennych unrhyw gollfarnau heb ddarod, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion?'*

Ers yr adeg y cafodd y canllawiau eu cyflwyno, rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch sut y dylai hyn gael ei ddehongli. Fe'i gwnaethoch yn glir yn eich adborth fod y cwestiwn e55 diwygiedig wedi achosi dryswch. Rydym wedi defnyddio eich adborth fel sail yr ymgynghoriad gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae hyn wedi arwain at eiriad cliriach.

A fyddech cystal **ag anwybyddu'r** cyngor blaenorol a chynghori ymgeiswyr sy'n cwblhau e55 i drin y cwestiwn hwn fel pe bai'r cwestiwn canlynol yn cael ei ofyn iddyn nhw:

'A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion terfynol na fyddai'n cael eu hidlo yn unol â chanllawiau cyfredol?'

Mae canllawiau hidlo DBS ar gael ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance. Mae'n cynnwys manylion llawn y rheolau hidlo a rhestr o droseddau na fydd fyth yn cael eu hidlo, sydd wedi deillio o ddeddfwriaeth.

Gofynnwyd i ni a ddylai cyflogwyr ddiwygio eu prosesau recriwtio ai peidio wrth ofyn am droseddau blaenorol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu y dylech chi ofyn y cwestiwn canlynol fel templed ar gyfer eich prosesau eich hun:

'A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion terfynol nad ydynt yn "warchoddedig" fel y'u diffinnir gan Orchymyn 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (fel y'i diwygiwyd yn 2013) gan OS 2013 1198'.

Cliciwch ar y ddolen isod i ddarllen am y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwy'r:
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1198/pdfs/uksi_20131198_en.pdf
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1198/pdfs/uksi_20131198_en.pdf

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y mater hwn yn [yma](#).

Adran x61

Rydym yn ddiweddar wedi dweud wrthy'ch am newidiadau a ddaeth i rym ar 17 Mehefin 2013 i'r ffordd mae'n rhaid i chi gwblhau maes x61 ar y ffurflen gais. Oherwydd y rhybudd byr y gallem ei roi i chi, rydym wedi cyflwyno datrysiaid maniw'al dros dro, lle byddem yn ychwanegu'r wybodaeth (lle nad oedd wedi cael ei darparu) drwy ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych ym meysydd x64 a x65.

Daeth y broses dros dro hon i ben ar 27 Mehefin. Felly mae'n rhaid i ni bellach wrthod unrhyw ffurflen gais bapur nad yw'n cynnwys y gweithlu perthnasol a'r swydd yr ymgeisiwyd amdani ym maes x61. Byddwn yn dychwelyd y ffurflenni hyn atoch chi i'w llenwi yn ôl y gweithdrefnau presennol. Gofynnwyd i ddefnyddwyr E-bulk wneud y newidiadau angenrheidiol i'w systemau i sicrhau bod y gweithlu a'r swydd yr ymgeisiwyd amdani yn cael eu cofnodi.

Gwnaed y newidiadau i roi'r wybodaeth angenrheidiol i'r heddlu ar gyfer eu prawf perthnasedd a gymhwysir bellach yn erbyn pwrpas rhagnodedig newydd gweithlu'r plentyn a/neu'r oedolyn. Mae hyn yn helpu ymgeiswyr i fynd â'u tystysgrif DBS o swydd i swydd o

fewn yr un gweithlu, ac fe'i defnyddir i wirio am ddiweddariadau pan maent yn ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru.

I wneud hyn, mae'n **RHAID** i faes x61 Llinell 1 gynnwys y gweithlu perthnasol, ac mae'n **RHAID** i faes x61 llinell 2 gynnwys y swydd yr ymgeisiwyd amdani. Mae'n rhaid i'r dasg o lenwi'r wybodaeth hon yn gywir fod yn gyfrifoldeb y Corff Cofrestredig ac mae'n ofyniad gorfodol i bob cais am wiriadau cofnodion troseddol.

Mae cwblhau'r ddau faes hyn yn gywir yn hanfodol oherwydd bod eu hangen ar gyfer ystyried perthnasedd gan yr heddlu, a byddant yn galluogi'r ymgeisydd i ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru os ydynt yn dewis gwneud hynny. Cyfeirir atynt yn y datganiad y mae'r Cydlofnodwr yn ei arwyddo cyn cyflwyno'r cais.

Y gweithluoedd perthnasol yw:

- Gweithlu Plant
- Gweithlu Oedolion
- Gweithlu Plant ac Oedolion
- Gweithlu Arall

Os byddwch yn gwneud camgymeriad ym maes x61 gallwch groesi allan unrhyw wybodaeth ac ychwanegu'r wybodaeth am y Gweithlu a'r Swydd yr ymgeisiwyd amdani yn y lle gwag uwchben maes x60.

Y nifer mwyaf o nodau, gan gynnwys bylchau, ar gyfer y wybodaeth hon yw 60 o hyd. Os ydych yn defnyddio mwy na 60 nod, yna ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ar gyfer maes x61 yn cael ei dangos ar y dystysgrif DBS derfynol.

Bydd canllawiau pellach ar gael yn fuan ar ein gwefan i'ch helpu chi i ddeall y mathau o swyddi sy'n cael eu cynnwys ym mhob gweithlu.

Adran x66

Yn rhifyn mis Ebrill, fe wnaethom ddweud wrthyhch fod nifer o'n lluoedd heddlu wedi cysylltu â ni i ddweud eu bod yn delio gyda nifer anarferol o uchel o geisiadau yn seiliedig yn y cartref. Ar ôl archwilio hyn, rydym wedi darganfod bod canran uchel o'r ceisiadau hyn wedi cael eu cwblhau'n anghywir ac nad oeddent mewn gwirionedd yn geisiadau oedd yn seiliedig yn y cartref.

Cymharol ychydig o rolau o'u gymharu â chyfanswm y ceisiadau a dderbynnir sy'n rhai seiliedig yn y cartref, felly ticiwch hyn ar gyfer rolau sy'n cael eu cyflawni yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn unig os gwelwch yn dda.

Er enghraifft, yn y mis diwethaf, mae rhai o'r swyddi y mae'r heddlu yn delio gyda hwy fel rhai sy'n seiliedig yn y cartref oherwydd eich bod wedi croesi 'IE' yn anghywir ym mlwch x66 yn cynnwys:

- Radiograffydd
- Gyrrwr Tacsî
- Myfyriwr Parafeddyg

Dylid cyflwyno ceisiadau sy'n seiliedig yn y cartref ar gyfer swyddi sy'n golygu gweithio gyda phlant ac oedolion yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn unig. Mae'r

diffiniad hwn yn gymwys i bob cais, gan gynnwys e-bulk er bod y geiriad ar y fanyleb e-bulk ychydig yn wahanol i'r geiriad ym maes x66 ar y ffurflen gais bapur.

Ar gyfer cais yn y cartref, mae'n rhaid i'r heddlu chwilio eu cronfeydd data am wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyfeiriad cartref yr ymgeisydd ei hun ac sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gysylltiedig â'r ymgeisydd sydd â mynediad posibl i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd er mwyn nodi unrhyw wybodaeth berthnasol.

Mae hyn yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy na gwiriadau eraill, ac felly mae'r broblem yn achosi tagfeydd gyda'n hunedau gorfodi'r gyfraith, ac mae'n debygol o arafu ein hamseroedd gweithredu ac achosi oedi i chi.

Enghreiffiau pryd y dylech groesi 'le' yn adran x66:

- **Gofalwyr maeth sy'n gofalu am blant yng nghartref y Gofalwr Maeth ei hun**
- **Gwarchodwyr plant sy'n gofalu am blant yng nghartref y gwarchodwr plant ei hun**

Enghreiffiau pryd y dylech groesi 'Na' yn adran x66:

- **Aelodau sy'n oedolion o aelwyd y Gofalwr Maeth**
- **Aelodau sy'n oedolion o aelwyd y Gofalwr Plant**
- **Cefnogaeth Gofalwr Maeth**

Er mwyn osgoi oedi diangen ac i gydymffurfio â deddfwriaeth, mae angen i chi wneud yn siŵr bod adran x66 o'r ffurflen gais yn cael ei chwblhau'n gywir (a yw'r swydd hon yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion bregus yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd?).

Dylech groesi 'le' yn adran x66 ar gyfer ymgeiswyr sy'n mynd i fod yn gweithio gyda phlant a / neu oedolion yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd ei hun yn unig.

Y Rhan Gyfreithiol

Mae Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Diwygiad Rhif 2) 2010, OS 2010/2702 yn nodi pryd mae'n briodol i wiriad cofnodion troseddol DBS manylach gael ei anfon at yr heddlu i ystyried gwybodaeth berthnasol ar gyfer galwedigaethau a leolir yn y cartref: "lle mae'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas â phwrpas rhagnodedig sydd i gael ei gyflawni'n bennaf ym man preswyllo'r ymgeisydd."

Nid yw'r Rheoliadau uchod yn cynnwys aelodau eraill yr aelwyd.

Mae gan unrhyw berson sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sy'n byw yn yr un cartref ag unigolyn sy'n gwneud cais am archwiliad o gofnodion troseddol ar gyfer galwedigaeth a leolir yn y cartref, hawl i gael gwiriad cofnodion troseddol Manylach ond heb y gwiriad yn y cartref - felly **rhaid i chi beidio** â chroesi 'le' yn adran x66.

Gwasanaeth Diweddarau - y stori ar ôl y lansiad

*Fe wnaethom lansi*o: cyflwynwyd y Gwasanaeth Diweddarau ar 17 Mehefin sy'n costio £13 (mae'n rhad ac am ddim i wirfoddolwyr). Mae'n golygu y gall ymgeiswyr ailddedfyddio eu

tystysgrif DBS, a gall cyflogwyr gynnal Gwiriadau Statws ar-lein ar unwaith, am ddim ar dystysgrifau DBS gweithwyr.

Rydych chi wedi helpu: rhesoch adborth i ni am yr hyn roedd arnoch angen ei wybod, ac fe wnaethom ddefnyddio hyn i wella ein canllawiau ar-lein. Gellir canfod hyn [yma](http://nux.mylogomail.com/sendlink.asp?HitID=0&StID=22036&SID=6&NID=442353&EmID=41999745&Link=aHR0cHM6Ly93d3cuZ292LnVrL2Rpc2Nsb3N1cmU%3D&token=f4b5709c1e74b7d02c01b814f3d7f7cf623c5de5) [<http://nux.mylogomail.com/sendlink.asp?HitID=0&StID=22036&SID=6&NID=442353&EmID=41999745&Link=aHR0cHM6Ly93d3cuZ292LnVrL2Rpc2Nsb3N1cmU%3D&token=f4b5709c1e74b7d02c01b814f3d7f7cf623c5de5>](http://nux.mylogomail.com/sendlink.asp?HitID=0&StID=22036&SID=6&NID=442353&EmID=41999745&Link=aHR0cHM6Ly93d3cuZ292LnVrL2Rpc2Nsb3N1cmU%3D&token=f4b5709c1e74b7d02c01b814f3d7f7cf623c5de5) ar ein gwefan lle gallwch gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch sy'n berthnasol i chi. Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Gwasanaeth Diweddarau a chanllawiau mwy manwl ar gyfer ymgeiswyr a chyflogwyr.

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth a chanllawiau pellach [yma](#) gan gynnwys:

- [canllaw ymgeiswyr](#)
- [rhagolwg ymgeiswyr](#)
- [canllaw cyflogwyr](#)
- [rhagolwg cyflogwyr](#)
- [cyflwyniad cyflogwr](#)
- [cyflwyniad rhanddeiliaid](#)

Cyn bo hir byddwch yn gallu lawrlwytho posteri ar gyfer eich swyddfa a bydd gennych fynediad at ddau fideo byr ar YouTube - un ar gyfer sefydliadau ac un arall ar gyfer ymgeiswyr. Byddwn yn gallu dweud mwy wrthyhch am hyn yn rhifyn y mis nesaf a ble y gallwch ddod o hyd iddynt.

Fe wnaethoch chi gymryd rhan: ers y dyddiad lansio, mae tua 2,000 o ymgeiswyr wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth. Diolch am eich holl gymorth hyd yn hyn i annog eich gweithwyr a darpar weithwyr i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddarau.

Daliwch ati i ledaenu'r gair i'ch cydweithwyr a'ch cleientiaid am y gwasanaeth. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y newidiadau eraill yr ydym wedi eu cyflwyno:

- newid yn y gyfraith sy'n golygu na fydd y Corff Cofrestredig yn derbyn copi o'r dystysgrif DBS mwyach yn awtomatig
- newidiadau yn y modd yr ydych yn cwblhau'r maes Swydd y Gwnaed Cais Amdani (x61).

Tystysgrifau ymgeiswyr yn unig: y rhesymau y tu ôl i hynny.

O 17 Mehefin, fe wnaethom stopio anfon copi o'r dystysgrif DBS at Gyrff Cofrestredig. Roedd hyn yn rhan o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Ddeddf Gwarchod Rhyddid 2012, ac roedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r Gwasanaeth Diweddarau.

Fe'i cyflwynwyd oherwydd gofynnwyd i Sunita Mason, Cyngorydd Annibynnol y llywodraeth ynghylch Rheoli Gwybodaeth am Droseddoldeb, adolygu'r drefn cofnodion troseddol yng Nghymru a Lloegr. Canfu fod y broses CRB ar y pryd yn cyhoeddi tystysgrifau i'r ymgeisydd a'r Corff Cofrestredig yr un pryd.

Un o'r prif feirniadaethau oedd nad oedd yr ymgeisydd yn cael unrhyw gyfle i ystyried, adolygu nac asesu'r wybodaeth ar dystysgrif cyn iddi gael ei datgelu i Gorff Cofrestredig. Canfu mewn achosion lle roedd gwybodaeth anghywir neu wallus yn cael ei datgelu, fod hyn yn cael effaith ddifrifol ar yr ymgeisydd.

Yn ei hadroddiad, 'A Common Sense Approach', argymhellodd y byddai rhoi'r dystysgrif i'r ymgeisydd yn unig yn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio dull arall i gywiro gwybodaeth anghywir.

Mae hyn yn rhoi ymgeiswyr mewn rheolaeth o'u gwybodaeth, gan eu galluogi i benderfynu pwy maent yn rhannu'r wybodaeth hon gyda nhw, a phryd. Mae ymgeiswyr bellach yn cael y cyfle i egluro'r cyd-destun a'r cefndir pryd y dewisant wneud hynny i rannu'r wybodaeth gyda chyflogwyr ac yn cael y cyfle i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol cyn iddynt wneud hynny.

Rydym yn deall bod y ddeddfwriaeth hon wedi achosi newid mawr i chi, yn enwedig oherwydd:

- Rydych yn cadw'r gallu i recriwtio neu gadw gweithwyr yn seiliedig ar p'un a yw'r dystysgrif DBS yn cael ei darparu gan yr ymgeisydd ac yn bodloni eich polisiâu recriwtio a chadw (mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a benodwyd yn wirfoddol).
- Rydych yn dal i allu gweld tystysgrif ymgeisydd fel rhan o'ch arferion recriwtio a chadw ochr yn ochr â dogfennau recriwtio perthnasol eraill fel dogfennau adnabod a geirdaon. Pan mae ymgeisydd yn darparu copi o'i dystysgrif DBS i chi, boed hynny ar gyfer gwaith cyflogedig neu ddi-dâl, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Noda un o Egwyddorion y Ddeddf hon: 'Ni ddylid cadw gwybodaeth bersonol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol'.
- Gallwch wirio ar-lein yn gyflym ac am ddim a yw tystysgrif yn gyfredol **os** yw'r ymgeisydd yn rhan o'r Gwasanaeth Diweddaru ac yn gymwys i gael Gwiriad Statws dilys.

Gallwn ddal i anfon copi o dystysgrif DBS yr ymgeisydd atoch chi, y Corff Cofrestredig, os yw pob un o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Mae'r unigolyn yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, **ac**
- Mae'r cyflogwr wedi cynnal Gwiriad Statws a ddatgelodd newid i'r dystysgrif DBS, **ac o ganlyniad**
- Mae'r unigolyn wedi gwneud cais am archwiliad o gofnodion troseddol newydd drwy ei Gorff Cofrestredig o ganlyniad i newid i dystysgrif DBS bresennol; **ac**
- Fe wnaethom anfon y dystysgrif DBS newydd at yr ymgeisydd fwy na 28 diwrnod yn ôl, **ac**
- Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos ei dystysgrif DBS newydd i'r cyflogwr.

Os yw'r ymgeisydd wedi dadlau ynghylch unrhyw wybodaeth ar y dystysgrif newydd, ni fyddwn yn gallu anfon copi o'r dystysgrif atoch chi nes bod yr anghydfod yn cael ei ddatrys ac mae'r ymgeisydd wedi cael cyfle i roi'r wybodaeth i chi.